# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**CYP(3)-05-10 (papur 2)**

### Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu : Cyflwyniad gan "Iwth Pen"

## Cyflwyniad

Mae Iwth Pen yn glwb ieuenctid gwirfoddol wedi ei leoli mewn Canolfan Hamdden, sef Canolfan Plas Silyn, Penygroes o 7 – 9y7 – 9y.h. bob Nos Wener**.** Sefydlwyd y clwb yn 2004. Mae ganddom 234 aelod rhwng 11 a 21 oed ac ers Mis Medi 2009 mae yna 86 person ifanc ar gyfartaledd yn mynychu'r clwb pob Nos Wener. Mae ganddom 10 o wirfoddolwyr ac yn ceisio cael 7 person yn gwirfoddoli pob Nos Wener.

## Yr ardal

Mae Dyffryn Nantlle yn ardal wledig lle mae'r mwyafrif yng Nghymru Cymraeg. Mae'r Dyffryn wedi ei wyn cynnwys 14 pentref. Penygroes sef y pentref mwyaf yw canolbwynt y Dyffryn. Yma mae'r Ganolfan Hamdden, Ysgol Uwchradd ac yn y blaen.

Mae Dyffryn Nantlle yn ardal wledig gyda phocedi o dlodi. Mae'r ardal yn cynnwys un ardal Cymunedau'r Gyntaf sef Talysarn a Nantlle

Mar gan Penygroes nifer o siopau bach gyda 2 siop ar agor gyda'r nos. Mae yna lyfrgell, a chaffi bach ond nid yw'r y rhain ar agor gyda'r nos. Mae yna nifer o glybiau ar gyfer pobl ifanc e.e. Urdd, Ffermwyr Ifanc, neidio ceffylau, bowlio, saethyddiaeth, Geidiaid, Scowtiaid, Wcwsbwcws ( sgiliau syrcas) a Chlwb yr Iard, ond nid yw'r un yn cwrdd ar Nos Wener. Mae pob un o'r clybiau yma yn gofyn am dal aelodaeth neu thal mynediad. Yn dilyn arolwg o aelodau Iwth Pen yn 2009 dywedodd 90% o'n aleodau na Iwth Pen oedd yr unig glwb roeddent yn perthyn i.

Mae plant Dyffryn Nantlle o dan anfantais gan fod adnoddau ar gyfer pobl ifanc mor bell i ffwrdd e.e. mae'r Cineworld agosaf 35 milltir i ffwrdd, a bowlio deg 20 milltir i ffwrdd. Hyd yn oed os oes ganddynt arian i fynd, mae trafnidiaeth gyhoeddus yn brin iawn a does dim trafnidiaeth ar ôl 6.00 y.h. yn rhan fwyaf o'r pentrefi.

## Y cychwyn.

Mae'n draddodiadol i pobl ifanc gwrdd ym Mhenygroes pob Nos Wener. Gyda dim ar agor a dim i wneud roedd grwpiau mawr o bobl ifanc yn ymgynyll ar y sgwâr wrth y siopau "take away" a'r Co op. Roedd trigolion lleol yn cwyno am y pobl ifanc ac yn honni ymddygiad gwrth cymdeithasol. Roedd yr heddlu yn cael ei galw ac yn gorfod rhoid sylw i'r oedolion oedd yn cwyno. Roedd y wasg yn rhoid sylw i'r broblem ac roedd pobl yn honi mwy a mwy o broblemau gyda'r pobl ifanc. Cynhelwyd gyfarfod cyhoeddus gan y Cynghorydd lleol, yr heddlu , cymdeithas tai lleol sef Cymdeithas Tai Eryri a thrigolion lleol i geisio datrys y broblem. Daeth yn glir fod y Clwb Ieuenctid y Cyngor wedi cau ar Nos Wener a fod yna ddim lle i pobl ifanc fynd i wario amser. Gwrthododd y Cyngor i ail agor y Clwb ieuenctid a gwrthododd y Ganolfan Hamdden i pobl ifanc fynd i'r ganolfan hamdden os nad oeddent yn talu i ddefyddio'r adnoddau chwaraeon.

## Cam cyntaf ymlaen.

Cytynodd y Cyngor fod modd i bobl ifanc ddefnyddio'r Ganolfan hamdden am ddwy awr ar Nos Wener os oedd oedolion yna i'w goruchweld. Cytynodd llond llaw o oedolion i fynd i goruchweld y bobl ifanc ac agorwyd y Clwb ym Mis Hydref 2004

## Y problemau cyntaf

Sylweddolodd y Ganolfan Hamdden eu bod methu llogi'r ganolfan i oedolion eraill os oedd y clwb ymlaen. Roedd hyn yn golygu eu bod am golli incwm. Roedd rhaid i Iwth Pen dalu am ddefnyddio'r Ganolfan. Gan fod ganddom ddim arian roedd hyn yn broblem fawr. Beth bynnag cytunodd y Cyngor i adael i ni gael y Ganolfan am ddim am y flwyddyn gyntaf. Heb y gefnogaeth yma fysa'r clwb heb allu cychwyn. Yn y diwedd bu'r Cyngor roid y Ganolfan i ni am ddim am y ddwy flynedd gyntaf.

## Y dyddiau cynnar

Roedd y clwb yn llwyddiant o'r cychwyn. Yn y flwyddyn gyntaf roedd ganddom tua 60 aelod gyda 35 o aleodau yn mynchychu pob Noson ar gyfartaledd. Cynyddodd hyn i 90 aelod ac cyfataledd o 55 person ifanc yn mynychu pob Nos Wener yn yr ail flwyddyn

## Yr ail broblem

Erbyn diwedd yr ail flwyddyn roedd raid cael mwy o wirfoddolwyr. Nid oedd tri person yn ddigon i oruchweld dros 55 o pobl ifanc mewn canolfan hamdden mawr.

Roedd y Cyngor yn parhau i gefnogi'r clwb, ond roedd clybiau eraill yn rhannau arall o'r Sir yn rhoid pwysa ar y Cyngor i adael iddynt hwythau ddefnyddio eu canolfannau hamdden lleol am ddim. Nid oedd y sefyllfa yn gynaladwy bellach i'r Cyngor. Roedd raid i ni dalu os oedd y clwb am ail gychwyn. Gofynwyd i ni dalu £50 y noson oedd yn bris teg iawn ar gyfer yr adnoddau, ond eto heb arian roedd hyn yn broblem fawr iawn.

### Yr camau nesaf ymlaen

Roedd pobl yn dod yn ymwybodol fod y clwb yn llwyddianus, roedd y cwynion i'r heddlu am pobl ifanc wedi dod i ben..

Y ail gam ymlaen oedd arian gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i dalu am logi'r ganolfan am y drydedd bwlyddyn. Ddaeth y cam mwyaf ymalen yn y bedwaredd flwyddyn wrth i brifathro Ysgol Dyffryn Nantlle gynnig talu am logi'r ganolfan am 30 noson fel rhan o'r cynllun Ysgol Fro. Roedd hyn yn golygu fod y clwb yn ddiogel am o leiaf tair blynedd.

Bu ddatrys y broblem arall sef gwirfoddolwyr trwy gyd weithio a chynllun arall yn y Dyffryn. Sefydlwyd Dim Cyfle Dyffryn Nantlle gan grwp o ferched lleol ar gyfer cynnig cyfleuoedd i pobl ifanc. Roedd Dim Cyfle wedi derbyn arian gan y Rank Foundation ar gyfer cynllun o'r enw " Dringo'r Waliau" . Mae hwn yn gynllun sydd yn cefnogi 5 person lleol i hyfforddi fel hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored fel bo nhw yn gallu cael gwaith yn lleol ac yn annog pobl ifanc lleol i gymryd rhan mewn gweithagreddau awyr agored. Roedd y 5 person lleol a rheolwr y cynllun i gyd o Ddyffryn Nantlle angen profiad o weithio a gwirfoddoli gyda pobl ifanc. Yn sydyn roedd gan y clwb 6 o wirfoddolwyr newydd.

### Y clwb heddiw

Mae yna ddau elfen i'r clwb.

Clwb Nos Wener.

Gweithgareddau awyr agored – wedi ei trefnu gan Dim Cyfle Dyffryn Nantlle. Wedi eu ariannu gan Rank Foundation a'r Tudor Trust.

### Clwb Nos Wener

Rydym yn cael defnydd y Ganolfan Hamdden i gyd, felly mae yn bob tro Peldroed, badminton, Squash a pool. Rydym hefyd yn ceisio gwneud un sesiwn pob Nos Wener sydd ddim yn chwaraeon. Drost y blynyddoedd rydym wedi gwneud pob math o sesiynau, os oes arian rydym yn gallu prynnu pobl ifewn neu ar adegau eraill wedi defnyddio sgiliau ein hunain.

Dyma rhai o bethau sydd wedi cael eu trefnu.

Dawnsio bol: Drumio: Trin beics : Coginio : Ymwelidau gan artistiaid lleol: Cyfansoddi caneuon: Dylunio Dillad: Gwneud cardiau : Capoeira: Juglio: Poi: Unicyclo.

### Gweithgareddau awyr agored

Drost y flwyddyn diwethaf mae pobl ifanc wedi cael y cyfle i drio llawer o bethau newydd, unai mewn sesiynnau hanner diwrnod, diwrnodau llawn neu ar benwythnosau preswyl. Mae nhw wedi bod yn Ceufadu, Rheardu, Dringo, Abseilio, Dilyn yr arfodir: I fynnu'r Wyddfa a beicio mynydd. Y nod yw annog rhai pobl ifanc i ddilyn cyrsiau wedi eu achredu yn yr gweithgareddau o'i dewis.

### Ariannu'r prosiect

Rydym yn cael arian gan yr Ysgol i logi'r ganolfan (£1500), sesiynau blasu gweithgreddau wedi ei ariannu gan arian SMAT(£400) a Cymunedau'n gyntaf (£343). Grant Celfyddydau Gwynedd i dalu am sesiynau celfyddydol (£450) Mae ganddom arian GWIRFOL i dalu am weithgaredd grwp (£350) ac arian gan gronfa cymunedol Watkin Jones (£500) Mae'r Cyngor Cymuned wedi rhoid £50 a grwp arall lleol wedi rhoid £50. Mae'r clwb hefyd yn cael cefnogaeth anuniongyrchol gan Gymdeithas Tai Eryri, Sylfaen, a Chartref Bontnewydd.

Rydym wedi ceisio cael arian tymor hir gan ffynhonellau grant mwy a thrwy Wasnaeth Ieunectid y Cyngor ond heb fod yn llwyddianus.

### Cryfderau y Clwb

Gwrifoddolwyr yn barod i gefnogi

Cefogaeth gan y ganolfan hamdden

Cefnogaeth o'r cychwyn gan Cyngor Gwynedd a'r heddlu lleol.

Gwirfoddolwyr talentog sydd yn cynnig eu sgiliau

Gwirfoddolwyr gyda phrofiad o ddelio gyda pobl ifanc

Gwirfoddolwyr gyda phrofiad o drefnu pethau

Gwirfoddolwyr sydd yn gallu ceisio am arian yn llwyddianus.

### Gwendidau'r clwb

Adeiliad mawr sydd yn anodd i'w oruchweld

Canolfan Hamden yw'r adeilad ddim Clwb Ieunectid

Dim arian parhaol

Hollol ddibynnol ar wirfoddolwyr

Dim digon o wirfoddolwyr

### Pam mae'r clwb mor llwyddianus?

Rydym wedi sefydlu'r clwb mewn ffordd sydd yn annog pobl ifanc i ddod. Rydym yn ceisio gwneud yn siwr nad oes unrhyw rwystr yn rhwystro'r pobl ifanc rhag dod i'r clwb.

Y prif rhwystr yw côst. Ni does unrhyw gôst ar berson ifanc i ddod i'r clwb nac i nweud unrhyw weithgaredd. Nid oes tripiau lle mae rhai yn gallu fforddio i fynd a rhai ddim. Os oes trip yn cael ei drefnu hyd yn oed drost benwythnos yr unig gost yw £2 am y bws.

Y rhwystr arall yw ymddygiad pobl ifanc. Mae rhai o'r pobl ifanc wedi eu rhwystro o fynychu llefydd eraill oherwydd eu hymddygiad. Rydym yn rheoli ymddygiad mewn dwy ffordd. Rydym yn gosod safon uchel i'n disgwyliadau o ran ymddygiad, ac rydym yn gadarn a chyson yn yr hyn sydd i ddigswyl. Rydym yn gofyn i pobl ifanc adael am weddill y noson os ydynt methu bahafio ond yn gwneud yn glir wrthynt fod croeso iddynt ddod yn ôl yr wythonos ganlynol. Anaml iawn rydym yn cael unrhyw broblem gyda ymddygiad ac yn anaml iawn mae rhywun yn gorfod gadael.

Mae rhai pobl ifanc yn gweld pellter fel rhwystr- Fel arfer mae'r clwb ar agor drwy dymor yr Ysgol. Rydym yn gwybod fod rhai pobl ifanc sydd yn byw tu allan i Benygroes yn aros yn y pentref ar ôl Ysgol er mwyn gallu dod i'r clwb. Nid oes gan rhai rieni gar ac mae llawer i ardal heb gysylltiad a Phenygroes heblaw am y bws Ysgol. Mae hyn golygu fod rhai yn gorfod aros am 3.5 awr cyn i'r clwb agor.

Sesiynau ffurfiol – mae rhai pobl ifanc yn dweud eu bod ddim eisiau mynychu clybiau lle mae rhaid gwneud pethau mewn sesiynau mwy ffurfiol. Mae gwirfoddolwyr Iwth Pen gyda'r talent o gynnig sesiynau sydd yn cydfynd ar Cwriciwlwm Cenhedlethol i Waith Ieunectid mewn ffordd lle nad yw'r pobl ifanc yn gwybod bod nhw yn cymryd rhan mewn gweithagredd strwythredig.

### Y dyfodol

Un o'n pryderon yw ein bod rhy llwyddianus. Mae ganddom ar gyfartaedd 86 perosn ifanc yn dod pob Nos Wener. Mae'r niferoedd dal yn cynyddu gyda o leiaf 5 person ifanc yn ymuno pob Nos Wener. Mae yna bwynt am ddod lle mae gorfod o pobl ifanc yn dod.

Rydym yn falch o allu cydweithio yn ddiweddar gyda Gwasanaeth Ieunectid y Cyngor sydd wedi cytuno i ail agor eu clwb Ieuenctid ar Nos Wener. Ar hyn o bryd ychydig iawn sydd yn mynychu y clwb, ond gyda amser y bwriad yw gallu cynnig glwb arall yn y pentref i pobl ifanc fynychu.

Rydym yn gobeithio fydd Cyngor Gwynedd yn parhau i gefnogi'r clwb a'r Ganolfan Hamdden. Bydd arian a gwirfoddolwyr i'r dyfodol yn parhau yn bryder.

Rydym yn teimlo fod Iwth Pen yn glwb llwyddianus iawn sydd yn cyrraedd anghenion pobl ifanc am 2 awr yr wythnos. Rydym yn meddwl fod y niferoedd sydd yn dod atom pob Nos Wener yn dangos fod yna groeso i pobl ifanc ac fod y clwb yn ran pwysig o'i bywyd cymdeithasol.

Val Owen, Mandy Davies, Ben Gregory